Polisi Diogelu Data 2025

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018

Data Protection Policy 2025

UK General Data Protection Regulation (GDPR) and the Data Protection Act 2018

Rhif y fersiwn ***Version number***	**0.3**
Dyddiad Cyhoeddi ***Publication Date***	**11/2025**
Dyddiad cymeradwyo ***Date Adopted***	**Gorffennaf 2026**

~~F~~ersiwn cyfredol/ *Current Version*

Hanes Fersiwn/*Version History*

Fersiwn/Version	Dyddiad/Date	Awdur/Author	Arsylwadau/Observations
0.1	**05.2018**	**Mai Bere**	Polisi yn dilyn cyflwyniad y ddeddf GDPR *Policy following the introduction of the GDPR act*
0.2	**10.2019**	**Louise Jones**	Ychwanegu manylion am casgliad gwybodaeth COVID *Adding details about COVID information collection*
0.3	**09.2025**	**Louise Jones**	Newidiadau; – cyfnodau cadw Ychwanegu – 9.2-9.5 – DPIA – ROPA – Apendics 4 *Changes;* – *Retention periods* *Additions* – *9.2-9.5* – *DPIA* – *ROPA*

			– *Apendics 4*

Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr/*Signed by the Chairman of Governors*:

_____

06.07.26
Dyddiad/*Date*: _____

Cynnwys

Contents

Atodlenni'r Ddeddf	Appendix 1	Schedules of the Act
Yr hawl i gael mynediad at wybodaeth	Appendix 2	The right to access to information
Digwyddiad Torri Data	Appendix 3	Data Breach
Asesiad o'r Effaith ar Diogelu Data	Appendix 4	Data Protection Impact Assessment
Ffurflen ganiatâd ffotograffau	Appendix 5	Photographs consent form
Ffurflen ganiatâd gwybodaeth biometrig	Appendix 6	Biometric information consent form

Cyfnodau Cadw	Mewnrwyd Ysgolion Gwynedd - - - Rhestrau Gadw - All Documents	Rentention Periods

Cyflwyniad

Er mwyn gweithredu'n effeithlon, mae'n rhaid **i'r Ysgol** gasglu a defnyddio gwybodaeth am bobl y mae'n gweithio â hwy. Gall y rhain gynnwys aelodau o'r cyhoedd, cyn-weithwyr, gweithwyr cyfredol a gweithwyr y dyfodol, disgyblion a chyflenwyr. Hefyd, efallai y bydd y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â gofynion llywodraeth ganolog.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau yr ymdrinnir â gwybodaeth bersonol yn briodol, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i fodloni ei rwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth a bydd yn adolygu gweithdrefnau yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud hynny.

Diffiniadau

Data Personol	Gwybodaeth sydd yn ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod sydd yn cael ei brosesu fel data. Mae prosesu yn golygu casglu, defnyddio, datgelu, cadw neu waredu gwybodaeth. Mae'r egwyddorion diogelu data yn gymwys ar gyfer yr holl wybodaeth a ddelir yn electronig neu mewn ffeiliau strwythuredig sydd yn dweud rhywbeth wrthych am unigolyn byw y gellir ei adnabod. Mae'r egwyddorion hefyd yn ymestyn at yr holl wybodaeth mewn cofnodion addysg. Enghreifftiau o hyn fyddai enwau staff a disgyblion, dyddiadau geni, cyfeiriadau, rhifau yswiriant cenedlaethol, marciau ysgol, gwybodaeth feddygol, canlyniadau arholiadau, asesiadau AAA ac adolygiadau datblygu staff.
Data Categori Arbennig	Gwybodaeth sydd yn ymwneud â hil neu ethnigrwydd, barn wleidyddol, crefydd, aelodaeth undebau llafur, iechyd, geneteg, rhywioldeb, bywyd rhywiol a data biometrig. Y gwahaniaeth rhwng prosesu data personol a data categori arbennig yw bod cyfyngiadau cyfreithiol mwy ar yr olaf gan ei fod yn ddata mwy sensitif.
Data Troseddol	Mae Erthygl 10 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn nodi'r rheoliadau ar gyfer prosesu data troseddol.
DDD	Yn golygu Deddfwriaeth Diogelu Data yn unol â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018
Toriad data	Torri diogelwch sy'n arwain at ddifrodi, colli, newid neu ddatgelu data personol a drosglwyddir, sydd wedi'i storio neu ei brosesu fel arall, a hynny'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Yr ICO yw corff annibynnol y Deyrnas Unedig (awdurdod goruchwylio) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd.
Rheolydd data	Y bobl, neu'r sefydliadau, sy'n pennu'r dibenion y caiff data personol eu prosesu ar eu cyfer, a'r ffordd y caiff unrhyw ddata personol ei brosesu. Mae gan y rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu arferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Mae'r ysgol yn rheolydd data.
Proseswyr data	Yn cynnwys unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (ac eithrio cyflogai'r rheolydd data). Gallai proseswyr data gynnwys cyflenwyr sy'n trin data personol ar ran yr ysgol.
Testun y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i Staff, Disgyblion, Llywodraethwyr yr ysgol.
Swyddog Diogelu Data (DPO)	Mae DPO yn cynorthwyo i fonitro cydymffurfiaeth fewnol, hysbysu a chynghori ar rwymedigaethau diogelu data, gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer testunau data a'r awdurdod goruchwylio.
Systemau TGCh	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
Gwybodaeth trydydd parti	Trydydd parti yw rhywun nad yw'n rheolydd data, y prosesydd data, neu'r gwrthrych data.
Cywirdeb	Cadw'r wybodaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn ddilys.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial ar gyfer niwed neu ofid. Nodweddir risg yn aml drwy gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau", neu gyfuniad o'r rhain.
Anawdurdodedig	Heb hawl gyfreithlon.

1. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr, llywodraethwyr, contractwyr, asiantaethau a chynrychiolwyr a staff dros dro sy'n gweithio i'r ysgol neu ar ei rhan.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth bersonol a grëwyd neu a ddelir gan yr ysgol ym mha bynnag fformat (e.e. papur, electronig, e-bost, ffilm) a pha bynnag fodd y mae'n cael ei storio (er enghraifft, system/cronfa ddata TGCh, safle *Sharepoint*, strwythur ffeilio gyriant a rennir, e-bost, cabinet ffeilio, silffoedd a droriau ffeilio personol a dyfeisiau symudol gan gynnwys ffonau symudol, dyfeisiau llechen a TCC).

Mae unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chreu gan yr ysgol a'i staff yn dod yn eiddo i'r ysgol.

Nid yw Deddfwriaeth Diogelu Data (DDD) yn berthnasol o ran cael mynediad at wybodaeth am unigolion sydd wedi marw.

2. Cyfrifoldebau

Y **Llywodraethwyr** sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gydymffurfio gyda'r DDD.

Y **Pennaeth** sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r DDD a'r polisi hwn o fewn gweithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau y darperir hyfforddiant priodol ar gyfer yr holl staff.

Mae **pob aelod staff** neu gontractwyr sydd yn dal neu'n casglu data personol yn gyfrifol am eu cydymffurfiaeth eu hunain gyda'r DDD a dylent sicrhau y cedwir ac y prosesir gwybodaeth bersonol yn unol â'r DDD.

Dylai pob aelod o staff fynegi eu bod wedi darllen, deall a derbyn y polisi hwn.

3. Gofynion

Mae Ddeddf Diogelu Data yn nodi bod rhaid i unrhyw un sy'n prosesu data personol **gydymffurfio â chwe egwyddor** arfer dda; gorfodir yr arferion hyn yn gyfreithiol.

Yng nghyd-destun gwybodaeth bersonol:

Mae Erthygl 5(1) y GDPR yn nodi fel a ganlyn ynghylch data personol;

1) dylid ei brosesu mewn **dull cyfreithiol, teg a thryloyw**
2) dim ond ar gyfer un neu ragor o **ddibenion penodol, clir a chyfreithlon** y dylid cael gafael ar y wybodaeth ac ni ddylid ei phrosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r diben neu'r dibenion hynny;
3) bydd y wybodaeth yn **ddigonol, yn berthnasol ac nid yn ormodol** o'i gymharu â diben neu ddibenion ei phrosesu;
4) bydd y **wybodaeth yn gywir** a, pan fo hynny'n briodol, yn hollol gyfredol;
5) ni ddylid cadw'r wybodaeth yn **hirach nag sydd rhaid** ar gyfer y diben neu'r dibenion hynny;
6) bydd y wybodaeth yn cael ei **chadw'n ddiogel**, h.y. ei gwarchod gan raddfa briodol o ddiogelwch.

Fel Rheolydd Data, mae'n ofynnol i'r Ysgol cadw cofnod mae gofyn i'r ysgol gadw **Cofnod o weithgareddau prosesu (ROPA)** sy'n ddogfen fyw sy'n ddisgrifio pob math o data personol mae'r Ysgol yn ei reoli a/neu ei brosesu. Dylai'r rhestr gynnwys;

- Disgrifiad o'r categorïau o Ddata Personol a Chategorïau o Destunau Data
- Dibenion y prosesu
- Y categorïau o dderbynyddion y mae data personol wedi cael ei datgelu iddynt, neu y bydd data personol yn cael ei datgelu iddynt
- Y sail gyfreithiol sy'n cael ei dibynnu arno i brosesu'r data
- Y mesurau diogelwch ar waith i diogelu'r data

Mae gofyn i'r ysgol dalu ffi flynyddol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Gallai methu â gwneud hynny arwain at gosb ariannol.

4. Datganiad Preifatrwydd

Pryd bynnag y casglir gwybodaeth am unigolion, **bydd yr ysgol yn darparu'r wybodaeth a ganlyn**:

- Pwy yw rheolydd y data, e.e. yr ysgol;
- Pwrpas casglu'r wybodaeth;
- Y sail gyfreithlon pam yr ydym yn casglu'r wybodaeth
- Unrhyw bwrpasau eraill y gellir ei ddefnyddio;
- Gyda phwy y bydd, neu gellir, rhannu'r wybodaeth;
- Pa mor hir y cedwir y wybodaeth
- Manylion ynghylch hawliau'r unigolion
- Manylion ynghylch y Swyddog Diogelu Data

Mae'n rhaid i hyn ddigwydd ar yr amser y **dechreuir casglu gwybodaeth** am unigolyn.

Os yw'r wybodaeth yn cael ei chasglu'n uniongyrchol gan blentyn, rhaid i'r hysbysiad preifatrwydd gael ei gyflwyno mewn iaith glir, plaen a phriodol i'w hoedran.

5. Amodau ar gyfer Prosesu

Gellir prosesu data personol dim ond pan fo un o amodau **Erthygl 6** y GDPR wedi cael eu bodloni.
Gellir prosesu data categori arbennig dim ond pan fo amod yn **Erthygl 9** GDPR y DU wedi cael ei fodloni yn ogystal ag un yn Erthygl 6.

Gweler **Atodiad 1** am restr o'r amodau.

6. Datgelu Data

Mae'n **drosedd** cael neu ddatgelu gwybodaeth am unigolyn yn fwriadol neu'n fyrbwyll heb achos cyfiawn.

- Ni ddylai'r ysgol ddatgelu unrhyw beth am gofnod y disgybl;

- a fyddai'n debygol o **beri niwed** sylweddol i'w iechyd corfforol neu feddyliol nac i iechyd corfforol neu feddyliol unrhyw berson arall.

- Lle mae **amheuaeth neu wrthdaro** o ran y gofynion statudol, dylid ceisio cyngor.

- Wrth roi gwybodaeth i unigolyn, yn enwedig ar y ffôn, yn bwysicaf oll, **mae'n rhaid gwirio pwy yw'r unigolyn hwnnw**. Os oes amheuaeth, dylid gofyn cwestiynau i'r unigolyn, rhai na all neb ond ef/hi eu hateb. Ni ddylid darparu gwybodaeth i bartïon eraill, hyd yn oed os ydynt yn perthyn. Er enghraifft: yn achos rhieni sydd wedi ysgaru, mae'n bwysig nad yw gwybodaeth ynghylch y naill barti yn cael ei rhoi i'r llall am nad oes ganddynt hawl i'w derbyn.

Dylid dim ond rhoi **data perthnasol, cyfrinachol** i:

- aelodau staff eraill ar sail angen gwybod;

- rhieni/gwarcheidwaid perthnasol; sefydliadau eraill os yn angenrheidiol er lles y cyhoedd, e.e. atal trosedd;
- awdurdodau eraill, megis yr Awdurdod Addysg Lleol ac ysgolion pan fydd disgyblion yn symud iddynt a lle mae gofynion cyfreithiol;
- sefydliadau sy'n cydweithredu â'r ysgol neu sy'n rhan o brotocol rhannu gwybodaeth.

7. Hawliau unigolion

7.1 Mynediad at wybodaeth amdanynt eu hunain

Mae gan bawb yr **hawl i gael mynediad** i wybodaeth a gedwir amdanynt. Fodd bynnag, o ran plant, mae hyn yn ddibynnol ar eu gallu i ddeall ac ar natur y cais. Gall yr unigolyn fod yn ddisgybl, yn rhiant neu'n aelod o staff.

Gweithredu cais

Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth yn ysgrifenedig, sy'n cynnwys e-bost, ar wefannau cyfryngau cymdeithasol ysgolion, neu ar lafar. Os nad yw'r cais cyntaf yn adnabod y wybodaeth sydd ei angen yn glir, yna gwneir ymholiadau pellach.

Mae'n rhaid **sefydlu hunaniaeth** y sawl sy'n gwneud y cais cyn datgelu unrhyw wybodaeth, a dylid cynnal gwiriadau ynghylch prawf y berthynas i'r plentyn.

Gellid sefydlu tystiolaeth o hunaniaeth gan ofyn am ddangos:

- Pasbort
- trwydded yrru
- biliau cyfleustodau gyda'r cyfeiriad presennol (a gyhoeddwyd o fewn y 3 mis diwethaf. Nid yw biliau ffôn symudol yn dderbyniol)
- Tystysgrif Geni / Priodas
- P45/P60
- Datganiad Morgais neu Gerdyn Credyd

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

Mae dau fath penodol o hawl i gael mynediad at wybodaeth a ddelir gan ysgolion am fyfyrwyr.

- O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan unigolion yr hawl i wneud cais i gael mynediad at gopi o'r **wybodaeth bersonol** a gedwir amdanynt y cyfeirir ato'n gyffredin fel Cais Gwrthrych y Data (SAR)
- Bydd hawl y rhai hynny sydd â hawl i gael mynediad at **gofnodion addysgol** fel y'i diffinnir o fewn Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011.

ii. Darparu data i blant

Mewn perthynas â gallu plentyn i wneud cais am ei **ddata personol,** mae'r canllawiau a ddarperir gan yr ICO yn nodi, erbyn i blentyn fod yn 12 oed, bod disgwyl iddynt fod yn ddigon aeddfed i ddeall natur y cais. Wrth gwrs, gall plentyn fod yn ddigon aeddfed yn gynt; **dylid ystyried aeddfedrwydd pob plentyn ar sail bob achos unigol.**

iii. Hawliau rhieni

Mae gan rieni eu hawl annibynnol eu hunain dan Reoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 i gael mynediad at **gofnodion addysgol** swyddogol eu plant.

Gall oedolyn sydd â **chyfrifoldeb rhiant** gael mynediad at y wybodaeth am eu plentyn, ar yr amod nad yw'r plentyn yn cael ei ystyried yn ddigon aeddfed.

- Rhaid iddynt allu profi eu cyfrifoldeb fel rhiant ac mae gan yr ysgol hawl i ofyn am y ddogfennaeth berthnasol i brofi hyn yn ogystal â phrawf o bwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais.

Dylai Pennaeth yr ysgol drafod y cais gyda'r plentyn ac ystyried ei farn wrth wneud penderfyniad. Os penderfynir nad oes gan y plentyn y gallu sydd ei angen, bydd unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu warcheidwad, yn gwneud y penderfyniad ar ran y plentyn.

Gall plentyn sydd â'r gallu i ddeall wrthod cytuno i gais y rhieni am ei gofnodion (SAR).

Nid oes gan fyfyrwyr hawl i atal eu rhieni rhag cael copi o'u cofnodion addysgol oni bai bod amgylchiadau lliniarol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yr amser a ganiateir i ymateb i **Gais Gwrthrych y Data (SAR)**, ar ôl cael ei dderbyn yn ffurfiol, yw **un mis (nid dyddiau gwaith na dyddiau ysgol, ond dyddiau calendr, heb ystyried cyfnod gwyliau ysgol).** Fodd bynnag, ni fydd yr un mis yn dechrau hyd nes y bydd hunaniaeth y sawl sy'n gwneud y cais wedi'i gadarnhau a bod eglurhad o'r wybodaeth a geisir wedi'i dderbyn.

Gellir ymestyn y cyfnod o hyd at ddeufis, os yw'r cais yn gymhleth neu'n niferus neu'n cael ei ystyried yn afresymol ar y sail ei fod yn amlwg yn ormodol ac yn ddi-sail. Bydd yr ysgol yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn mis bod y cyfnod ymgeisio i'w ymestyn a'r rheswm pam. Caniateir hyd at ddeufis arall i fodloni'r cais mewn amgylchiadau o'r fath.

Mae'r term **'amlwg ddi-sail'** yn cael ei ddiffinio fel un sydd ddim yn ddidwyll ac sydd heb unrhyw wir ddiben.
Mae'r term **'gormodol'** yn cael ei ddiffinio fel cais sydd wedi cael ei gyflwyno yn flaenorol. Os mai dyma yw'r achos, gall yr ysgol wrthod ymateb i SAR ond mae'n rhaid iddi allu arddangos pam fod y cais yn ddi-sail neu'n ormodol.
Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn caniatáu ar gyfer eithriadau i ddarparu gwybodaeth benodol; felly, bydd **yr holl wybodaeth yn cael ei hadolygu cyn ei datgelu.**
Ni ddylid datgelu unrhyw wybodaeth a allai niweidio iechyd corfforol neu feddyliol neu gyflwr emosiynol y disgybl neu unrhyw berson arall yn sylweddol. Ni ddylid datgelu gwybodaeth bod y plentyn mewn perygl o gamdriniaeth, nac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag achos llys.

Mae gwybodaeth trydydd parti yn wybodaeth sydd wedi'i darparu gan eraill, megis yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu ysgol arall. Fel arfer, mae angen caniatâd i ddatgelu gwybodaeth gan drydydd partïon. Mae angen cadw'r amserlen yr un fath.
Dylid gofyn am gyngor pellach os oes unrhyw bryder ynglŷn â datgelu gwybodaeth.

Dylai'r wybodaeth a ddatgelir fod yn glir, felly bydd angen egluro unrhyw godau neu dermau technegol. Os yw'r wybodaeth a gynhwysir yn anodd ei darllen neu ei deall, dylid ei theipio eto.

Pan fo gwybodaeth wedi'i golygu, dylid cadw copi cyflawn o'r wybodaeth a ddarperir i sefydlu beth gafodd ei olygu a pha resymau dros olygu a ddefnyddiwyd yn achos cwyn.

Rhaid i geisiadau am **Gofnodion Addysgol** gael eu hateb o fewn **15 diwrnod ysgol** o dderbyn cais ysgrifenedig gan riant. Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio, yn rhad ac am ddim, i'r rhiant.

Rhaid i geisiadau am gopi o **gofnod addysgol disgybl** gael eu hateb pan delir ffi o'r fath (heb fod yn fwy na chost y cyflenwad), os o gwbl, **fel y pennir gan y Corff Llywodraethu**. Gellir codi ffi o hyd at £50, ar raddfa symudol, am gopïau o gofnod addysgol disgybl.

Wrth ddarparu gwybodaeth, rhaid i'r ysgol hefyd ddarparu'r un manylion i'r unigolion hynny a'r rhai sydd wedi'u darparu mewn hysbysiad preifatrwydd.

Gellir darparu gwybodaeth yn yr ysgol gydag aelod o staff ar gael i helpu ac egluro materion os oes angen, neu gellid ei darparu wyneb yn wyneb. Dylid **ystyried barn yr ymgeisydd** wrth benderfynu sut i ddarparu'r wybodaeth. Os oes rhaid defnyddio systemau'r post yna rhaid defnyddio post cofrestredig.

7.2 Yr hawl i wneud cais bod gwybodaeth anghywir yn cael ei chywiro

Mae gan bob unigolyn yr hawl i hysbysu'r ysgol os ydyw o'r farn fod y wybodaeth amdanynt wedi cael ei **chofnodi'n anghywir**. Gweler Atodlen 2.

Efallai na fydd modd newid neu ddileu'r wybodaeth ar bob achlysur, ond dylid cywiro unrhyw beth sy'n ffeithiol anghywir.

Yn y cyfamser, dylid rhoi hysbysiad ar ffeil y person yn nodi bod amheuaeth am ei chywirdeb.

7.3 Yr hawl i wneud cais i wybodaeth gael ei dileu.

Mae gan bob unigolyn, mewn rhai amgylchiadau, yr hawl i wneud cais i **ddileu gwybodaeth** amdanynt eu hunain. Bydd yr ysgol yn ystyried pob cais ar sail unigol.

7.4 Yr hawl i wrthwynebu neu i gyfyngu ar y prosesu

Mae gan bob unigolyn yr hawl i **wrthwynebu** i'w gwybodaeth gael ei phrosesu o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu ar sail tasg gyhoeddus neu fuddiant dilys.
- Lle mae marchnata uniongyrchol.
- Prosesu yn sgil gwaith ymchwil neu ystadegau.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r cais oni bai:

- Bod rhesymau cryf a chyfreithlon dros brosesu.
- Mae angen sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

O ran cyfyngu ar brosesu, mae hawl i wneud hynny os;

- yw unigolion yn daer fod y data yn anghywir ac felly, rhaid cyfyngu arno yn ystod yr ymchwiliad.
- mae unigolion wedi gwrthwynebu.
- mae prosesu yn anghyfreithlon, a
- lle nad yw'r ysgol angen y data ond mae ar unigolion ei angen er mwyn amddiffyn hawliad cyfreithiol.

Bydd angen hysbysu unrhyw drydydd parti sydd wedi derbyn y data o'r angen i gyfyngu ar y prosesu, ac i hysbysu'r unigolion o bwy yw'r trydydd partïon hyn.

8. Diogelwch

8.1 Cofnodion papur

Lle bynnag y bo'n bosib, dylid defnyddio ystafelloedd storio, cabinetau cryf, a systemau storio diogel eraill y gellir eu cloi, i storio cofnodion papur. Ni ddylid gadael papurau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol gyfrinachol ar ddesgiau mewn swyddfeydd ac ystafelloedd dosbarth, ar fyrddau ystafelloedd staff nac wedi'u gosod ar hysbysfyrddau lle mae modd i unrhyw un eu gweld. Dylid cymryd gofal penodol os oes yn rhaid mynd â'r dogfennau o'r ysgol.

8.2 Dyfeisiau Electronig

Dylai'r ysgol gadw **cofnod cyfredol o ddyfeisiau electronig** sy'n gysylltiedig â myfyrwyr yn ogystal ag aelodau staff unigol.

Dylid cadw pob dyfais gludadwy electronig mor ddiogel â phosib ac o dan glo pan nad yw'n cael ei defnyddio. Rhaid i bob dyfais gael ei diogelu gan gyfrinair.

Ni anogir y defnydd o gyfryngau symudadwy (**Dyfeisiau USB/cofbinnau** neu ffurf arall o gadw gwybodaeth nad yw'n rhan o'r cyfrifiadur ei hun) sy'n cadw gwybodaeth bersonol a chyfrinachol.
Dylid defnyddio meddalwedd amgryptio i amddiffyn pob dyfais gludadwy a chyfryngau symudadwy, megis gliniaduron a dyfeisiadau USB.

Os defnyddir cyfryngau symudadwy a/neu ddyfeisiau USB, rhaid trosglwyddo data i safle SharePoint yr ysgol ac yna ei waredu'n ddiogel.

Dylid annog **cyfrineiriau cryf**, h.y. o leiaf wyth nod a chynnwys symbolau arbennig os yw unrhyw gyfarpar electroneg yn dal gwybodaeth bersonol gyfrinachol.

- **Ni ddylid rhannu cyfrineiriau o gwbl**.
- Dylid defnyddio gwahanol gyfrineiriau ar gyfer gwahanol systemau a dyfeisiadau.

Mae'n hanfodol fod yr **awdurdodaethau mynediad cywir** ar gyfer ffeiliau a systemau yn eu lle, a dylid gwirio a diweddaru'r awdurdodaethau hynny'n rheolaidd.

8.3 E-bost

Rhaid i **Fusnes Swyddogol yr Ysgol,** gan gynnwys corff Llywodraethu'r ysgol, gael ei anfon yn defnyddio cyfrif e-bost swyddogol yr Ysgol.
Ni ddylid defnyddio cyfrifon e-bost personol i ymgymryd â busnes swyddogol yr ysgol nac i gefnogi'r gwaith hwnnw,

Dylai gohebiaeth e-bost fod yn broffesiynol a dylid cymryd gofal arbennig gyda chynnwys yr e-bost. Mae gwirio pwy yw'r derbynyddion a defnyddio BCC yn hanfodol i leihau'r risg o dorri diogelwch data.

8.4 Dyfeisiau Symudol

Ni ddylid defnyddio dyfeisiau Symudol Personol oni bai y pennir fod hyn yn gwbl angenrheidiol. Dylid rhannu unrhyw wybodaeth bersonol a gofnodir ar y ddyfais dan sylw gyda'r ysgol a dylid cadarnhau fod y wybodaeth wedi'i dileu.

Yr Ysgol, fel y Rheolydd Data, sy'n parhau i reoli'r Data Ysgol swyddogol sy'n cael ei storio ar ddyfeisiau symudol personol, waeth pwy fo perchennog y ddyfais.

8.5 Cyfrifon Hwb a One Drive

Dim ond **gwybodaeth am ddatblygiad proffesiynol** ddylid ei storio o fewn cyfrifon *One Drive* a HwB unigol.
Dylid trosglwyddo busnes/dogfennaeth swyddogol yr ysgol i system ffeilio *SharePoint* swyddogol yr ysgol.

9. Prosesu Data

Dylai staff yr ysgol gymryd gofal wrth gofrestru i ddefnyddio unrhyw systemau, rhaglenni neu apiau addysgol a ddarperir gan sefydliad/darparwr allanol.
Dylai fod yn glir sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i phrosesu.
Yr ysgol, fel y rheolydd data, sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am y data personol.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am asesu **cymhwysedd proseswyr** data gyda *gofynion GDPR y DU* .

Dylai'r ysgol, fel rheolydd data, cynnal **gwiriadau diwydrwydd dyladwy** i warantu y bydd y prosesydd data yn gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i fodloni *gofynion GDPR y DU* .
Dylai'r diwydrwydd dyladwy fod yn gymesur â risg y prosesu cyn cytuno ar gontract gyda phrosesydd data.

Mae angen i'r ysgol, fel rheolydd data, sicrhau bod **cytundebau prosesu angenrheidiol** yn eu lle cyn i unrhyw wybodaeth gael ei rhannu.

Dylid cymryd gofal pan fydd systemau, rhaglenni neu apiau eisiau cael mynediad at, neu eisiau tynnu data o, systemau ysgol eraill h.y. system MIS yr ysgol
Rhaid i unrhyw **risgiau a mesurau lliniaru** gael eu hystyried **cyn comisiynu'r darparwr**.

Rhaid cwblhau **DPIA (Asesiad Effaith Diogelu Data)** cyn defnyddio unrhyw gwmni newydd a/neu **CYN** cychwyn unrhyw fath newydd o brosesu. Bydd yr asesiad yn nodi risgiau ac yn nodi mesurau lliniaru ar gyfer y risgiau hynny. Dylid anfon yr asesiad risg at Swyddog Diogelu Data yr Ysgol i'w adolygu a'i awdurdodi. Gweler **Atodiad 4**

10. Rhannu Gwybodaeth

Wrth rannu gwybodaeth bersonol, bydd yr ysgol yn sicrhau bod:

- ganddi'r hawl i'w rhannu;
- diogelwch digonol (gan gymryd natur y wybodaeth i ystyriaeth) mewn lle i'w amddiffyn; ac
- yn darparu amlinelliad mewn hysbysiad preifatrwydd am bwy sy'n derbyn gwybodaeth bersonol gan yr ysgol.

Bydd unrhyw ddata personol a anfonir at drydydd parti er prosesu (cwmni allanol) wedi'i gynnwys dan **gytundeb prosesu/rhannu data**.
Nid yw GDPR y DU yn eich atal rhag rhannu data personol gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith (a adwaenir dan gyfraith diogelu data fel "awdurdodau cymwys"), sy'n gweithredu eu swyddogaethau gorfodi'r gyfraith statudol. Os derbynnir cais am wybodaeth gan yr Heddlu, dylid hefyd gynnwys ffurflen SA3 wedi'i chwblhau yn llawn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Dylai'r holl wybodaeth berthnasol, ofynnol fod yn bresennol cyn datgelu gwybodaeth.

Dylai'r Ysgol ddilyn y **Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth gyda'r Awdurdodau Heddlu'r Deyrnas Unedig**

Dylid anfon y cais ymlaen at y Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn ei awdurdodi.

11. Toriad/Digwyddiad Data

Mae toriad/digwyddiad data yn golygu bod gwybodaeth bersonol wedi cael ei **chyfaddawdu neu cholli**, a allai fod wedi digwydd o ganlyniad i ddigwyddiad seiber; data wedi'i adael mewn lleoliad anniogel; data wedi'i bostio at y derbynnydd anghywir; colli neu ddwyn gwaith papur neu ddyfais anniogel, ac ati.

Rhaid i'r ysgol adrodd am unrhyw doriadau data i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion (SDD) ar unwaith, gan ddefnyddio'r dogfennau perthnasol yn **Atodiad 3**
Bydd y SDD yn ymchwilio ac yn cymryd camau adfer priodol.

Rhaid adrodd am doriadau data difrifol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o ganfod y tor-rheol.

12. Rheoli Asedau

Mae'r ysgol yn berchen ar lawer o asedau gan gynnwys dyfeisiau ac offer a roddir i staff i ymgymryd â'u gwaith. Mae'r asedau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i;

- Cyfrifiadur Personol/Gliniadur
- Ffonau symudol a dyfeisiau data symudol, sef dyfeisiau llechen (*Ipad*).
- Camerâu

Dylid cymryd pob gofal rhesymol i **ddiogelu asedau** rhag difrod a cholled neu ladrad. Mae aelodau staff yn gyfrifol am ofalu am asedau a roddir iddynt bob amser p'un a ydynt yn cael eu defnyddio, eu storio neu eu cludo o un lle i'r llall.
Os bydd yr ased yn cael ei golli neu ei ddwyn, rhaid rhoi gwybod am hyn ar unwaith i'r rheolwr llinell.

Mae'n gyfrifoldeb ar yr ysgol i gynnal **cofrestr asedau** a fydd yn galluogi adnabod perchnogaeth ar unrhyw adeg. Dylai'r gofrestr hon **gael ei chadw'n gyfredol** bob amser ac yn gynnwys;

- **Disgrifiad o'r ased** - e.e. gliniadur, ffôn symudol, camera, IPad
- **Rhif Adnabod unigryw** – neilltuo rhif unigryw i bob ased er mwyn cyfeirio'n hawdd ac i atal dyblygu
- **Perchennog Asedau Gwybodaeth** – Nodi'r unigolyn sy'n gyfrifol am bob ased

13. Cadw Data a Rheoli Cofnodion

Dylid cadw cofnodion mewn modd fel y gallai'r unigolyn dan sylw eu hymchwilio. Dylid hefyd cofio ei bod yn bosib y bydd y llysoedd neu unrhyw swyddog cyfreithiol yn ymchwilio'r data rywdro yn y dyfodol, felly dylai fod yn **gywir, yn ddiduedd, yn ddiamwys** ac yn hawdd i'w ddehongli/darllen.

Pan ceir gwybodaeth gan ffynhonnell allanol, dylid cofnodi manylion y ffynhonnell a'r dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth.

Dylid **ond cadw gwybodaeth cyn hired ag y bo angen**, ar gyfer dibenion cyfreithiol neu fusnes ac yn unol â chyfnodau cadw'r ysgol (sydd ar gael yn yr ysgol).

Mae'r cyfnodau cadw ar gael Mewnrwyd Ysgolion Gwynedd - - - Rhestrau Gadw - All Documents

14. Gwaredu

Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi dod i ben, rhaid adolygu'r cofnod a'i **waredu'n ddiogel** a chywir **yn unol â chyfarwyddiadau gwaredu**.

Os cedwir unrhyw wybodaeth gyfrinachol ar **gofnodion papur**, dylid cael gwared arnynt yn ddiogel trwy dorri neu drwy ddefnyddio gwasanaethau gwastraff cyfrinachol.
Dylid dileu neu ddinistrio **Cofnodion Electronig**, a chadw tystysgrif dinistrio.

15. Gwefan/cyfryngau cymdeithasol

Bydd unrhyw berson sydd â'u manylion, neu fanylion plentyn, i'w cynnwys ar wefan yr ysgol neu ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yr ysgol angen **rhoi caniatâd**.

Bydd y caniatâd **yn cael ei gofnodi'n briodol** , gan gynnwys y dyddiad y rhoddwyd y caniatâd ac enw'r sawl a roddodd y caniatâd, gan ddefnyddio system MIS yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'u **polisi gwefan/cyfryngau cymdeithasol mabwysiedig** lle bo hynny'n berthnasol.

Rhaid i unigolion gael gwybod am ganlyniadau eu data yn cael ei ledaenu ledled y byd ar y ffurflen ganiatâd fel y gallant wneud dewis gwybodus.

16. Ffotograffau

Mae'n bosib y bydd ffotograffau a dynnir ar gyfer **defnydd swyddogol yr ysgol** wedi'u cynnwys gan y Ddeddf Diogelu Data (DDD) a bydd yr Ysgol yn dweud wrth ddisgyblion a staff pam eu bod yn cael eu tynnu.

Mae ffotograffau a dynnir er **defnydd personol** yn unig **wedi'u heithrio** o'r DDD.

Bydd ffurflen ganiatâd ar gyfer ffotograffau yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r gwaith papur mynediad i ysgolion.

Mae **enghraifft** o ffurflen ganiatâd yn cael ei ddarparu yn **Atodiad 5**

Bydd y caniatâd yn cael ei gofnodi'n briodol, gan gynnwys y dyddiad y rhoddwyd y caniatâd ac enw'r sawl a roddodd y caniatâd, gan ddefnyddio system MIS yr ysgol.
Bydd yr ysgol yn anfon neges at bob rhiant ar ddechrau pob blwyddyn academaidd i **adolygu unrhyw ganiatâd** a roddir a bydd caniatâd yn cael ei adolygu cyn i unrhyw ffotograffau gael eu tynnu a/neu eu postio ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol/gwefan/llawlyfr yr ysgol.

17. TELEDU CYLCH CYFYNG

Mae dal a/neu gofnodi delweddau o unigolion y gellir eu hadnabod yn enghraifft o brosesu gwybodaeth bersonol ac felly mae angen cydymffurfio â'r DDD. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'u **polisi TCC sydd wedi'i fabwysiadu** lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd yr ysgol yn hysbysu staff, disgyblion ac ymwelwyr am y rheswm y mae'n casglu gwybodaeth bersonol ar ffurf delweddau TCC.
Bydd yr ysgol yn sicrhau fod ganddi gyfnod cadw penodol yn seiliedig ar yr angen posib i adolygu'r delweddau a bydd yn ystyried pwy sydd yn cael mynediad at y delweddau hyn a pham.

Bydd gan unigolion ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yr hawl i ofyn am weld y delweddau. Bydd holl geisiadau o'r fath yn cael eu cofnodi.

18. Gwybodaeth Biometrig (lle bo hynny'n berthnasol)

Mae gwybodaeth biometrig yn golygu nodweddion mesuradwy, biolegol sy'n gallu adnabod unigolyn yn unigryw fel olion bysedd neu adnabod wynebau.
Mae **Deddf Diogelu Rhyddidau 2012** yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â defnyddio systemau adnabod biometrig.

O dan GDPR y DU, cydnabyddir bod y math hwn o ddata yn **ddata categori arbennig.**

Bydd yr Ysgol yn adfer **caniatâd ysgrifenedig** gan unigolion **cyn prosesu** eu data biometrig.

Ar gyfer pob disgybl ysgol o dan 18 oed, bydd yr ysgol yn cael **caniatâd ysgrifenedig** rhieni **cyn** cofnodi a phrosesu manylion biometrig eu plentyn.

Bydd **dulliau amgen** o ddarpariaeth gwasanaeth ar gael os bydd unigolyn yn gwrthod rhoi caniatâd.

Darperir ffurflen ganiatâd ar gyfer gwybodaeth biometrig yn **Atodiad 6**

19. Hyfforddiant Staff

Bydd pob gweithiwr yn derbyn **Hyfforddiant Diogelu Data** priodol a fydd yn cynnwys cyrsiau **gloywi blynyddol**.

Bydd yr hyfforddiant yn berthnasol, yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru i'r holl staff. Bydd yn canolbwyntio ar feysydd allweddol o ddiogelu data megis trin ceisiadau, rhannu data, diogelwch gwybodaeth, toriad data personol a rheoli cofnodion.

Bydd yr ysgol yn cadw **cofnod o ddyddiadau hyfforddiant staff** a phresenoldeb yn ogystal â chofnod o staff sydd wedi darllen, deall a derbyn y polisi hwn.

20. Hawliau mynediad - staff newydd/newid rôl/staff sy'n gadael

Rhaid i'r ysgol gael rheolaethau ar waith i sicrhau **cyfrinachedd, cywirdeb** ac **argaeledd** y data maent yn eu prosesu er mwyn cydymffurfio â'r polisi Diogelu Data a rheoliadau GDPR y DU.

Dylid cadw ac adolygu'r lefel mynediad a roddir i bob defnyddiwr (staff/disgyblion/Llywodraethwyr) fel rhan o gofnodion 'staff newydd/newid rôl/staff sy'n gadael' gan ganiatáu i fynediad gael ei ddiweddaru'n gywir pan fo angen.

Bydd pob **aelod o staff newydd** yn derbyn hyfforddiant diogelu data fel rhan o'u pecyn anwytho. Dylid ychwanegu manylion am hyn at gofnod hyfforddi staff.

Dylai unrhyw un **sy'n gadael yr ysgol** gael eu cynghori i lawrlwytho eu dogfennau personol o'u cyfrif HwB ac One Drive.
Dylai hawliau mynediad, ar bob system, i bawb sy'n gadael gael eu **dirymu ar eu diwrnod olaf** yn yr ysgol.

21. Torri'r polisi

Gall methiant aelodau staff i gydymffurfio â gofynion y DDD arwain at drydydd partïon yn cymryd camau difrifol yn erbyn yr ysgol.

Felly, mae diffyg cydymffurfiaeth gan aelod o staff yn cael ei ystyried fel **mater disgyblu** a all, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, arwain at ddiswyddiad. Dylid nodi y gall unigolyn gyflawni trosedd o dan y Ddeddf, er enghraifft, gan gael gafael ar/neu ddatgelu data personol er ei (d)dibenion ef/hi ei hun heb ganiatâd y rheolydd data.

22. Cwynion

Dylid gwneud cwynion am y gweithdrefnau uchod i **Gadeirydd y Corff Llywodraethol** fydd yn penderfynu a yw hi'n briodol ymdrin â'r gŵyn yn unol â threfn gwyno'r ysgol ai peidio. Gellir ymdrin â chwynion nad yw'n briodol ymdrin â hwy drwy drefn gwyno'r ysgol gan swyddog Diogelu Data'r Ysgol yn y lle cyntaf a'u cyfeirio at y

Comisiynydd Gwybodaeth os oes angen. Bydd manylion cyswllt pawb yn cael eu darparu gyda'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu.

23. Cysylltiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch y polisïau / gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r **Pennaeth** yn y lle cyntaf neu'r **Swyddog Diogelu Data Ysgolion.**

Gellir dod o hyd i ragor o gyngor a gwybodaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO'), www.ico.gov.uk

24. Adnoddau Defnyddiol

Pecyn penodol ar gyfer ysgolion gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Ysgolion, prifysgolion a cholegau | ICO

HwB
Adnoddau cenedlaethol ar ddiogelwch ar-lein:
https://hwb.gov.wales/resources/resource/def9bffd-1fba-4902-9834-3ecca60bb7e7/cy

Introduction

In order to operate efficiently, **the School** has to collect and use information about people with whom it works. These may include members of the public, current, past and prospective employees, pupils and suppliers. In addition, it may be required by law to collect and use information to comply with the requirements of central government.

The school is committed to ensuring that personal information is properly managed and that it ensures compliance with data protection legislation. The school will make every effort to meet its obligations under the legislation and will regularly review procedures to ensure that it is doing so.

Definitions

Personal Data	Information which relates to an identifiable living individual that is processed as data. Processing means collecting, using, disclosing, retaining, or disposing of information. The data protection principles apply to all information held electronically or in structured files that tells you something about an identifiable living individual. The principles also extend to all information in education records. Examples would be names of staff and pupils, dates of birth, addresses, national insurance numbers, school marks, medical information, exam results, SEN assessments and staff development reviews.
Special Category Data	Information that relates to race and ethnicity, political opinions, religion, trade union membership, health, genetics, sexuality, sex life, and biometric data. The difference between processing personal data and special category data is that there are greater legal restrictions on the latter as they are more sensitive.
Criminal Data	Article 10 of the General Data Protection Regulation (GDPR) sets out the regulations to process criminal data.
DPL	Means Data protection Legislation in line with the UK GDPR and the Data Protection Act 2018
Data breach	A breach of security leading to the accidental or unlawful destruction, loss, alteration, unauthorised disclosure of, or access to, personal data transmitted, stored, or otherwise processed information.
Information Commissioner's Office (ICO)	The ICO is the UK's independent body (supervisory authority) set up to uphold information rights. The ICO's role is to uphold information rights in the public interest.
Data controller	The people, or organisations, which determine the purposes for which, and the way any personal data is processed. The data controller has a responsibility to establish practices and policies in line with legislation. The school is a data controller.

Data processors	Includes any person who processes personal data on behalf of a data controller (other than the employee of the data controller). Data processors could include suppliers which handle personal data on behalf of the school.
Data subject	The individual to whom the personal information relates. This can include, but is not limited to Staff, Pupils, Governors of the school.
Data Protection Officer (DPO)	A DPO assists to monitor internal compliance, inform, and advise on data protection obligations, act as a contact point for data subjects and the supervisory authority.
ICT Systems	Information processing computers or data communication systems.
Third-party information	A third party is somebody who is not the data controller, the data processor or the data subject.
Integrity	The preservation of the complete, accurate and validated state of information.
Risk	Effect of uncertainty on objectives. Risks to individuals: the potential for damage or distress. Risk is often characterised by reference to potential “events” and “consequences”, or a combination of these.
Unauthorised	Without a legitimate right.

1. Scope

This policy applies to all employees, governors, contractors, agencies and representatives and temporary staff working for or on behalf of the school.

This policy applies to all personal information created or held by the school in whatever format (e.g. paper, electronic, email, film) and however it is stored, (for example ICT system/database, SharePoint site, shared drive filing structure, email, filing cabinet, personal filing shelves, drawers and mobile devices including mobile phones, tablets and CCTV).

Any information created by the school and its staff becomes the property of the school.

Data Protection Legislation (DPL) does not apply to access to information about deceased individuals.

2. Responsibilities

The **Governors** have overall responsibility for compliance with DPL.

The **Headteacher** is responsible for ensuring compliance with DPL and this policy within the day-to-day activities of the school. The Headteacher is responsible for ensuring that appropriate training is provided for all staff.

All members of staff or contractors who hold or collect personal data are responsible for their own compliance with DPL and must ensure that personal information is kept and processed in line with DPL.

All staff members should express that they have read, understood and accepted this policy.

3. Requirements

DPL stipulates that anyone processing personal data must **comply with six principles** of good practice; these principles are legally enforceable.

In the context of personal information:

Article 5(1) GDPR states that personal data;

a) should be processed in a legal, fair and transparent manner
b) should only be acquired for one or more specific, clear and lawful purposes, and it should not be further processed in any manner incompatible with that purpose or those purposes;
c) will be adequate, relevant and non-excessive in relation to the purpose or purposes for which it is processed;
d) will be accurate, and where appropriate, completely up-to-date;
e) should not be kept for longer than needed for that purpose or those purposes;
f) will be processed safely, i.e. protected by an appropriate degree of security.

As Data Controller - the school, are required to maintain a **Record of processing activities** (ROPA) which is a living document that describes all types of personal data the School controls and/or processes. The list should contain;

- Description of the categories of Personal Data and Categories of Data Subjects
- The purposes of the processing
- The categories of recipients to whom personal data have been or will be disclosed
- The lawful basis being relied upon to process such data
- The security safeguards in place

The school is required to pay an annual fee to the Information Commissioner's Office (ICO).

Failure to do so could lead to a financial penalty.

4. Privacy Notices

Whenever information is collected about individuals, **the school will provide the following information**:

- The identity of the data controller, e.g. the school;
- The purpose that the information is being collected;

- The lawful basis for collecting the information
- Any other purposes that it may be used for;
- With who the information will or may be shared with;
- How long the information is kept
- Details about the rights of individuals
- Details about the Data Protection Officer

This must happen at the time that information first starts to be gathered on an individual.

If information is collected directly from a child, the privacy notice must be presented in clear, plain, age-appropriate language.

5. Conditions for Processing

Processing of personal information may only be carried out where one of the conditions of **Article 6**, GDPR has been satisfied.
Processing of special category data may only be carried out if a condition in **Article 9** UK GDPR is met as well as one in Article 6.

See **Appendix 1** for a list of the conditions.

6. Disclosure of Data

It is a **criminal offence** to knowingly or recklessly obtain or disclose information about an individual without legitimate cause.

- The school should not disclose anything on a pupil's record;

- which would be likely to cause serious harm to their physical or mental health or that of anyone else.

- Where there is doubt or statutory requirements conflict, advice should be sought.

- When giving information to an individual, particularly by telephone, it is most important that the **individual's identity is verified**. If in doubt, questions should be asked of the individual, to which only he/she is likely to know the answers. Information should not be provided to other parties, even if they are related. For example: in the case of divorced parents it is important that information regarding one party is not given to the other party to which he/she is not entitled.

Relevant, confidential data should only be given to:

- other staff members on a need-to-know basis.
- relevant parents/guardians; other organisations if it is necessary in the public interest, e.g. prevention of crime;
- other authorities, such as the Local Education Authority and schools to which a pupil may move, where there are legal requirements.
- organisations that collaborate with the school or that are part of an information sharing protocol

7. Individuals' rights

7.1 Access to information about themselves

Everyone has the **right of access** to information held about them. However, for children, this depends on their ability to understand and the nature of the request. The individual may be a pupil, a parent, or a staff member.

Actioning a request

Requests for information can be made in writing, which includes email, on school social media sites, or verbally. Please see **Appendix 2**

If the initial request does not clearly identify the information required, then further enquiries will be made.

The identity of the person making the request must be established before the disclosure of any information, and checks should also be carried out regarding proof of relationship to the child.

Evidence of identity can be established by requesting production of:

- Passport
- driving licence
- utility bills with the current address
- Birth / Marriage certificate
- P45/P60
- Credit Card or Mortgage statement

This list is not exhaustive.

There are two distinct rights of access to information held by schools about students.

- Under data protection legislation, individuals have the right to make a request to access a copy of the personal information held about them commonly referred to as a Subject Access Request (SAR)
- The right of those entitled, will have access to curricular and educational records as defined within The Pupil Information (Wales) Regulations 2011.

(ii) Provision of data to children

In relation to the capacity of a child to make a request for his/her **personal data,** guidance provided by the ICO states that by the age of 12 a child can be expected to have sufficient maturity to understand the nature of the request. A child may of course reach sufficient maturity earlier; each child should be judged on a case-by-case basis.

(iii) Parents' rights

Parents have their own independent right under The Pupil Information (Wales) Regulations 2011 to inspect the official **curricular and educational records** of their children.

An adult with parental responsibility can access the **information about their child**, provided that the child is not considered to be sufficiently mature.

- They must be able to prove their parental responsibility and the school is entitled to request relevant documentation to evidence this as well as the identities of the person making the request.

